


Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Bwletin Newyddion Llais Cleifion



Meysydd o ddi-ddordeb arbennig:

- **Eiriolaeth**
- **Ymgysylltu**
- **Ymweliadau**

Eiriolaeth

Derbyniodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion ar gyfer pryderon ffurfiol 71 o gysylltiadau newydd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi. Ni wnaeth 45 o'r cysylltiadau hynny ddychwelyd ffurflen ganiatâd i barhau ac aeth 26 ymlaen i wneud cwyn ffurfiol i'r GIG. Y 5 prif arbenigedd y gwnaed cwynion ffurfiol amdanynt oedd:

- Gofal Sylfaenol – Practis Cyffredinol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
- Llawfeddygaeth – Trawma ac Orthopaedeg
- Uned Asesu Meddygol Aciwt
- Meddygaeth Frys

Yn ystod yr un cyfnod, cafodd ein gwasanaeth ymholiadau anffurfiol (cymorth anffurfiol i ddatrys pryderon llai cymhleth) 56 o gysylltiadau newydd. Aeth 9 o'r rhain ymlaen i wneud cwyn ffurfiol sy'n nodi bod y gwasanaeth ymholiadau wedi cefnogi 47 o gleientiaid i ddatrys problemau bach yn gyflym ac felly'n osgoi cwyn ffurfiol. Y 5 prif arbenigedd y gwnaed ymholiadau amdanynt oedd:

- Gofal Sylfaenol – Practis Cyffredinol
- Llawfeddygaeth – Gastroenteroleg
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
- Llawfeddygaeth – Trawma ac Orthopaedeg
- Meddygaeth – Gofal yr Henoed

Ymgysylltu

Prif ffocws ein gwaith ymgysylltu dros yr haf, ar wahân i gasglu adborth y cyhoedd am brofiadau gofal iechyd, oedd darparu negeseuon allweddol ynghylch yr ymgynghoriad Papur Gwyn "Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol" a thrafod safbwyntiau'r cyhoedd fel y gallwn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Gwnaethom ymweld â Thŷ Penallta, Caerffili ym mis Gorffennaf, dychwelyd i farchnad Pont-y-pŵl ym mis Awst ac ym mis Medi aethom i Ffair Iechyd y Bwrdd Iechyd yn Sain Cadog.

Gwnaethom dderbyn dros 200 o ymatebion i'r ymgynghoriad Papur Gwyn i gyd.



Judith Pritchard a Katie Dyer yn Nhŷ Penallta

Ymweliadau

Cynhaliodd yr aelodau nifer o ymweliadau dirybudd ag ysbytai yn ystod yr Haf, gyda'r canlyniadau canlynol:

Ysbyty Brenhinol Gwent:

Ward C4 Gorllewin – Roedd boddhad cleifion uchel er nad oedd ystafell ddydd ac nad oedd cyfleusterau adloniant bryd hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi darparu radio ym mhob bae. Roedd darpariaeth adeg prydau bwyd yn broblem gan nad oedd cleifion yn derbyn y prydau roeddent wedi'u harchebu.

Ward D4 Gorllewin – Cafodd y ward hon ei symud yn fuan ar ôl yr ymweliad ac felly nid oedd llawer o'r argymhellion yn ddilys mwyach. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion gwaith a chyfleusterau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw cyn i'r ward gael ei hailddefnyddio ac mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi gwneud hynny.

Ward D4 Dwyrain – Tynnwyd sylw at broblemau profiad cleifion o ran lefelau cysur ac ysgogiad.

Ysbyty Nevill Hall:

4/1 Ward Monnow – Roedd y ward hon wedi cael ei hadnewyddu yn ddiweddar i safon uchel ac roedd boddhad cleifion yn uchel iawn, gyda chanmoliaeth i'r staff a lefelau cysur.

4/2 Ward Crickhowell - Er bod y ward hon yn cael ei hadnewyddu ar adeg yr ymweliad nododd y cleifion lefelau uchel o gysur a boddhad. Roedd amser bwyd wedi'i drefnu'n dda ac roedd cleifion yn derbyn cymorth priodol.

3/3 Ward Duffryn – Roedd boddhad cleifion uchel iawn gyda chanmoliaeth i'r staff a'r gofal a roddir er y teimlwyd bod prinder staff. Roedd amser bwyd wedi'i drefnu'n dda.

Ysbyty Gwynllyw:

Ward Sycamore – Roedd cleifion yn y ward dementia hon yn hapus yn eu hamgylchedd a oedd yn gyfforddus a thawel ac yn cynnig digon o weithgareddau. Roedd staff yn darparu safon uchel o ofal.

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
6-8 William Brown Close
Tŷ Raglan
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516

E-bost: enquiries.aneurinbevanhc@waleschc.org.uk

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae ein cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu o'n gwefan.

www.patienthelp.wales.nhs.uk/aneurinbevan